**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Diwylliant a’r Gymraeg ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**27 Ionawr 2026**

## RHAN 1

### 1 Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026 ('y Rheoliadau') yn pennu'r terfynau ffioedd uchaf y caniateir eu codi ar 'berson cymhwysol' sy'n ymgymryd â 'chwrs cymhwysol' addysg uwch at ddibenion adran 46(6) o Ddeddf Addysg ac Ymchwil Trydyddol (Cymru) 2022 ('Deddf 2022')

### 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau yn unol ag adrannau 32(11), 46(6) and 143(2) o Deddf 2022.

3.2 Mae adran 32(11) o Ddeddf 2022 hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r amgylchiadau pan fo ffioedd a delir am gwrs a ddarperir gan ddarparwr allanol (h.y. ar ran darparwr cofrestredig) i'w trin fel ffioedd cwrs rheoleiddiedig a delir i'r darparwr cofrestredig ac felly'n ddarostyngedig i derfyn ffioedd.

3.3 Mae adran 46(6) o Ddeddf 2022 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau yr "uchafswm" y caiff darparwr cofrestredig sy'n ddarostyngedig i'r amod terfyn ffioedd ei godi am "gwrs cymhwysol" sy'n cael ei wneud gan "berson cymhwysol" mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Pennir "cwrs cymhwysol" a "person cymhwysol" at ddibenion Deddf 2022 yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026

3.4 Mae adran 143(2) yn caniatáu i reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf 2022 wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol neu wneud darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

3.5 Mae adrannau 46(6), 143(3) a 143(4)(b) o Ddeddf 2022, sydd i'w darllen gydag adran 37C o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") a pharagraff 3 o Atodlen 1A iddi, yn darparu bod y Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd ac i'w gwneud drwy offeryn statudol Cymru (adran 37A o Ddeddf 2019).

3.6 Mae adrannau 32(11) a 143(5) o Ddeddf 2022, sydd i'w darllen gydag adran 37E o Ddeddf 2019 a pharagraff 5 o Atodlen 1A i Ddeddf 2019, yn darparu bod y Rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd ac i'w gwneud drwy offeryn statudol Cymreig (adran 37A o Ddeddf 2019).

3.7 O dan adran 40 o Ddeddf 2019, caniateir i ddarpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn annilysu gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gymeradwyo. Mae adran 40(1) o Ddeddf 2019 yn darparu, pan fo darpariaethau o'r fath yn cael eu cyfuno mewn un offeryn, bod gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys.

3.8 Bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Mawrth 2026 yn amodol ar gytundeb gan y Senedd.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Bwriad rheoleiddio ffioedd dysgu yw sicrhau na cheir codi ffioedd ar bersonau penodol sy'n ymgymryd â chyrsiau penodol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sydd uwchlaw uchafswm penodedig. Pennir y categori o gyrsiau a phersonau at ddibenion Deddf 2015 yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

4.2 Diben y Rheoliadau yw rheoleiddio'r ffioedd a godir ar bersonau cymhwysol sy'n ymgymryd â chyrsiau cymhwysol at ddibenion Deddf 2022.

4.3 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth i Medr sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ("y gofrestr"). Bydd y gofrestr, a fydd yn cael ei sefydlu ar 31 Gorffennaf 2026, yn disodli'r drefn reoleiddio addysg uwch o dan Ddeddf 2015 ac yn darparu ar gyfer goruchwylio'n rheoleiddiol darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yng Nghymru.

4.4 Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais i gofrestru, rhaid i ddarparwyr fodloni ystod o amodau cychwynnol ac, ar ôl cofrestru, rhaid i ddarparwyr gydymffurfio ag ystod o amodau cofrestru parhaus. Mae'n ofynnol i Medr fonitro cydymffurfiaeth â'r amodau cofrestru parhaus.

4.5 Mae adran 32 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr sicrhau bod amod terfyn ffioedd yn cael ei gynnwys yn yr amodau cofrestru parhaus a gymhwysir i bob darparwr cofrestredig sydd:

- wedi'i gofrestru mewn 'categori terfyn ffioedd', a
- yn darparu cyrsiau cymhwysol neu y darperir cyrsiau cymhwysol ar ei ran.

4.6 Mae'r 'categori terfyn ffioedd' wedi'i bennu gan Weinidogion Cymru yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024 (sef y categori 'Craidd Addysg Uwch').

4.7 Mae'n ofynnol i ddarparwyr sy'n ddarostyngedig i'r amod terfyn ffioedd gael datganiad terfyn ffioedd wedi'i gymeradwyo gan Medr[1] a sicrhau nad yw'r ffioedd sy'n daladwy i'r darparwr gan berson cymhwysol sy'n ymgymryd â chwrs cymhwysol yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys a bennir yn y datganiad terfyn ffioedd, neu a bennir yn unol â'r datganiad terfyn ffioedd. Mae adran 46(6) o Ddeddf 2022 yn darparu na all y terfyn ffioedd a bennir mewn datganiad terfyn ffioedd fynd uwchlaw'r hyn a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

4.8 Er y bydd y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Mawrth 2026, bydd y datganiadau terfyn ffioedd a gymeradwywyd o dan Ddeddf 2022 yn dod i rym gyntaf mewn perthynas â chyrsiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2027/28. Rhagwelir y bydd y datganiadau mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2027/28 yn cael eu cymeradwyo gan Medr cyn sefydlu'r gofrestr ar 31 Gorffennaf 2026.

4.9 Mae'r Rheoliadau (rheoliad 2) yn pennu mai'r uchafswm blynyddol y gellir ei godi ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser yw £9,790. Mae hyn yn ddarostyngedig i reoliadau 3, 4 a 5 sy'n pennu uchafsymiau llai mewn perthynas â chyrsiau penodol, fel y nodir isod:

- Mae rheoliad 3 yn pennu £4,895 fel yr uchafswm blynyddol y gellir ei godi am flwyddyn olaf cwrs sy'n gofyn am lai na 15 wythnos o bresenoldeb, neu ar gyfer unrhyw gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon lle mae'r cyfnodau astudio amser llawn dros y flwyddyn yn llai na 10 wythnos.

- Mae rheoliad 4 yn pennu £1,955 fel yr uchafswm blynyddol y gellir ei godi am gwrs rhyngosod pan fo

  - cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser (gyda'i gilydd) yn llai na 10 wythnos; neu
  - cyfanswm yr amser a dreuliwyd yn mynychu'r cwrs mewn ffyrdd heblaw astudio'n llawnamser yn y sefydliad addysg uwch yn y flwyddyn academaidd bresennol a blaenorol (heb gyfrif gwyliau) yn fwy na 30 wythnos.

- Mae cwrs rhyngosod yn gwrs sy'n cynnwys cyfnodau o astudio llawnamser mewn sefydliad am yn ail â chyfnodau o brofiad gwaith pan fo'r myfyriwr, gan gymryd y cwrs yn ei gyfanrwydd, yn bresennol ar y cyfnodau o astudio llawnamser am ddim llai na 18 wythnos ym mhob blwyddyn (ar gyfartaledd)

- Mae rheoliad 5 yn gosod £1,465 fel yr uchafswm blynyddol y gellir ei godi am gwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad[2] tramor pan fo:

[1]Mae adran 46 o Ddeddf 2022 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ddatganiad terfyn ffioedd ei gynnwys, tra bod adran 47 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chymeradwyo datganiadau terfyn ffioedd gan Medr.

[2] Mae sefydliad tramor yn sefydliad nad yw wedi'i leoli yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

- unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser (gyda'i gilydd) yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos; neu
- cyfanswm y cyfnodau presenoldeb cyfunol yn y flwyddyn academaidd bresennol a blaenorol nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (heb ystyried gwyliau) yn fwy na 30 wythnos.

4.10 Mae rheoliad 6 yn nodi sut mae ffioedd ar gyfer cyrsiau cynhwysol a ddarperir ar ran darparwr cofrestredig yn cael eu trin fel pe baent yn daladwy i'r darparwr cofrestredig yn hytrach na'r corff sy'n darparu'r cwrs.

## 5 Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 12 wythnos rhwng 8 Ebrill a 4 Gorffennaf 2025.

5.2 Gan adeiladu ar y materion yr ymdriniwyd â nhw mewn ymgynghoriad[3] cynharach gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023, ceisiodd yr ymgynghoriad hwn adborth ar gynigion polisi mewn perthynas â Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cynhwysol a Phersonau Cynhwysol) (Cymru) 2026 a'r Rheoliadau hyn ac amlinellodd bolisi arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

5.3 Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol at yr ymgynghoriad.

5.4 Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ymateb i'r cwestiynau ymgynghori drwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein. Daeth 30 o ymatebion i law.

5.5 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr

## 6 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid yw'r newidiadau hyn yn newid y polisi perthnasol (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na'r ffordd mae'r polisi'n cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, ac nid yw'n ofynnol cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

---

[3] Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol: rheoliadau cychwynnol